# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

8 Rhagfyr 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD ARBENNIG o GYNGOR SIR CEREDIGION am 2.00p.m, DDYDD IAU, 14 RHAGFYR 2023 yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell dros fideo gynadledda, i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau

2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

3. Materion Personol

4. EITEM EITHRIEDIG
   Nid yw'r adroddiad (Papur B) ar yr eitem isod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 13 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

   Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

**5.** **C**yfweld yr ymgeisydd(wyr), fel y'u nodir ar y rhestr fer ar gyfer swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol); ac i benodi un person i'r swydd (Papurau A; a Papur B - EITHRIEDIG) (Tudalennau 3 - 44)

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor**

Papur A

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Pecyn Gwybodaeth

Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol



# Neges gan ein Harweinydd

Mae hwn yn gyfle eithriadol i ymuno â'r Cyngor fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'n Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, i allu arwain, dylanwadu a siapio ein gwasanaethau, gan ychwanegu gwerth a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i drigolion Ceredigion.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion hanes hir o ddarparu gwasanaethau rhagorol i'w drigolion. Er bod gennym ni, fel cyrff cyhoeddus eraill, amseroedd anodd o'n blaenau, rydym yn hyderus y gallwn, drwy gydweithio ac arloesi, barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar draws ein holl feysydd gwasanaeth eang.

Mae Tîm Ceredigion yn Gyngor blaengar gydag agwedd 'gallu gwneud' sydd â lle unigryw yn niwylliant a daearyddiaeth Cymru. Gan ymuno â thîm arwain y Cyngor, mae hwn yn gyfle gwych i wneud eich marc fel gweithiwr proffesiynol llywodraeth leol, gan y bydd eich cyfraniad yn hollbwysig wrth arwain y sefydliad drwy'r cyfnod heriol sydd i ddod.

Bryan Davies
Arweinydd
Cyngor Sir Ceredigion

# Neges gan y Prif Weithredwr

Rydym yn mynd trwy drawsnewidiad uchelgeisiol. Rydym wedi nodi'r angen am newid ac rydym yn newid y ffordd yr ydym yn meddwl, y ffordd yr ydym yn gweithio a'r ffyrdd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau i bobl Ceredigion. I ymuno â ni ar ein taith o drawsnewid rydym am benodi arweinydd deinamig a fydd yn croesawu'r heriau a ddaw yn sgil rôl arweiniol amlddimensiwn mewn llywodraeth leol fodern.

Fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a'n Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol dynodedig, chi fydd y cynghorydd arweiniol i'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â gwasanaethau arbenigol Porth Cynnal. Yn ogystal, byddwch yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol eraill i sicrhau bod amcanion strategol a chorfforaethol yn cael eu cydlynu, eu gweithredu a'u gwreiddio'n effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth.

Yn ogystal â meddu ar y profiad a'r sgiliau i'n cefnogi i ddatblygu ymhellach ein gwasanaethau gofal sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, bydd gennych hefyd awydd cryf i ddefnyddio dulliau creadigol ac arloesol i wella'r modd y darperir gwasanaethau a byddwch yn cael eich cymell i harneisio potensial staff presennol i ddatblygu gwasanaeth gwydn, ystwyth a blaengar.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolyn sydd am ymuno â thîm sydd ag angerdd am wneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau Ceredigion.

**Eifion Evans**
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion







# Ynglŷn â Phorth Cynnal

Ein tîm ar gyfer cymorth mwy hirdymor gan gynnig gwasanaethau gofal dwys ac arbenigol, gydol oes, a gwasanaethau cymorth i unigolion a theuluoedd ag anghenion cymhleth y model.

Mae Porth Cynnal yn darparu gwasanaethau asesu a gofalu dwys ac arbenigol, gydol oes, i'r rhai sydd angen gofal a chymorth hirdymor neu gymhleth. Mae'n cynnwys gwiriadau sicrhau ansawdd ac ymyriadau statudol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y timau canlynol:

- **Gofal wedi'i Gynllunio:** Timau Gofal a Chymorth i Oedolion a Phlant a Thîm Ymyriadau Statudol
- **Cymorth Estynedig:** Tîm Anabledd Oedolion a Phlant a Thîm Cymorth Arbenigol Galluedd Meddyliol
- **Camddefnyddio Sylweddau:** Tîm Camddefnyddio Sylweddau, Tîm Statudol Cyfiawnder Ieuenctid a Thîm y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd/Ar Ffiniau Gofal
- **Lles Meddyliol:** Tîm Iechyd Meddwl a Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, Tîm Cwnsela Ysgolion
- **Diogelu a Gwella Ansawdd:** Tîm Diogelu Oedolion a Phlant, Tîm Adolygu Annibynnol a Sicrhau Ansawdd

# Model Gydol Oes a Llesiant

Yng Nghyngor Sir Ceredigion rydym yn trawsnewid y ffordd y mae unigolion, teuluoedd, cymunedau a gofalwyr yn gallu cael cymorth a chefnogaeth pan fydd ei angen arnynt.

Ein gweledigaeth yw sicrhau fod pobl yn gallu cael gafael yn hwylus ar wasanaethau cyffredinol a phenodol i ddatblygu'r sgiliau a'r gwytnwch sydd eu hangen arnynt i ddilyn bywydau llawn ac i gyflawni eu nod.  Rydym yn ceisio grymuso unigolion yn yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a gweithio gydag asiantaethau partner i gryfhau annibyniaeth pobl, sicrhau diogelwch a hybu lles.

Mae ein strategaeth Gydol Oes a Llesiant yn disgrifio sut y byddwn yn datblygu gweithlu medrus ac arloesol a fydd yn darparu gwasanaethau gydol oes sy'n canolbwyntio ar gymorth ataliol ac ymyriadau cynnar gyda mynediad hwylus i wybodaeth, cyngor a chymorth. Hefyd, yn asesu angen a gofal yn briodol a darparu cynlluniau cymorth i'r rheiny sydd angen cymorth mwy hirdymor.









Ar ôl gwrando ar ein trigolion, gwyddom fod darparu cymorth yn gynnar yn atal yr angen am wasanaethau mwy arbenigol ac yn osgoi argyfwng. Mae pobl am gael mynediad i'r gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn a chael dewis a rheolaeth lle bo'n bosib, boed ar gyfer eu hunain, y teulu, gofalwyr neu'r gymuned.

Mae ein model gwasanaeth gydol oes yn cynnwys pedwar maes sy'n ymwneud â lles, cymorth a gofal:

- Gwasanaethau Cyswllt Cychwynnol (Clic)
- Porth Cymorth Cynnar (Lles a Dysgu Cymunedol)
- Porth Gofal (Ymyriad wedi'i Dargedu)
- Porth Cynnal (Gwasanaethau Arbenigol)

# Beth mae ein hymarferwyr yn ei ddweud...



"Gan fod Ceredigion yn gyngor cymharol fach mae yna fanteision enfawr o ran rhwydweithio a gwybod at bwy i fynd, pwy sydd â'r arbenigedd a chael ymatebion amserol. Mae lefel uchel o ymrwymiad a chydweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Atyniad arall ar gyfer gweithio gyda'r cyngor yw'r ardal rwy'n byw ac yn gweithio ynddi. Pan symudais i gyntaf fe gymerodd flwyddyn i mi sylweddoli nad oeddwn ar fy ngwyliau!"

**John Forbes-Jones**
Rheolwr Corfforaethol Lles Meddyliol

“Mae gen i nifer o hoff bethau am weithio i Gyngor Sir Ceredigion. Rwy’n hoffi’r ffaith ei fod yn awdurdod bach lle rydych chi’n adnabod y rhan fwyaf o bobl ac yn gallu cael cymorth ac atebion yn gyflym iawn.

Rwyf hefyd yn hoffi’r buddsoddiad sydd gan Geredigion ar gyfer ei staff. Trwy ddarparu cyfleoedd a hyfforddiant, mae gweithwyr yn gallu symud ymlaen yn eu gyrfaoedd."

**Taniya Jarrams**
Rheolwr Corfforaethol Integredig Gwasanaethau Brysbennu ac Asesu





“Rwy’n newydd iawn i Gyngor Sir Ceredigion a dim ond ym mis Hydref 2021 ymunais, ond un o fy hoff bethau yw pa mor gefnogol a chroesawgar y mae pawb wedi bod.


Rwy’n falch iawn o ymuno â’r tîm ar yr adeg hon gan fy mod yn teimlo ein bod i gyd yn croesawu’r heriau sydd o’n blaenau ac mewn sefyllfa wych i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Ceredigion.”

**Emma Clarke**
Rheolwr Corfforaethol - Cefnogaeth Estynedig

“Un o fy hoff bethau am weithio i Geredigion yw’r ymrwymiad y mae fy nghydweithwyr yn dangos. Maent bob amser yn barod i helpu ei gilydd ac mae hynny'n gryfder gwirioneddol y mae'n ymddangos bod llawer o sefydliadau wedi'i golli y dyddiau hyn.

Mae yna hefyd synnwyr digrifwch da a thynnu coes sy’n helpu yn ystod y dyddiau anodd.”

**John Callow**
Rheolwr Corfforaethol - Gofal wedi'i Gynllunio



# Lle gwych i fyw a gweithio



# Proffil Rôl

Teitl y Swydd: **Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gwasanaeth: **Porth Cynnal — Gwasanaethau Arbenigol**

Gradd: **Swyddog Arweiniol Corfforaethol (A2) - £81,977 i £87,115**

Yn atebol i: **Cyfarwyddwr CorfforaetholLleoliad Cytundebol: Aberaeron neu Aberystwyth**

Arddull Gwaith: **Hybrid Hyblyg**

Oriau gwaith: **37 awr ac yn ôl yr angen i gyflawni gofynion y llwyth gwaith**





# Diben y Rôl

- Bod yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac yn brif ymgynghorydd i'r Cyngor ar wasanaethau ym Mhorth Cynnal gan gynnwys:
  - Diogelu
  - Iechyd meddwl
  - Gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth wedi'i Gynllunio
  - Camddefnyddio Sylweddau
  - Gwasanaethau Cymorth Estynedig (Anabledd)
  - Sicrwydd Ansawdd ac Adolygiad Annibynnol
- Hyrwyddo’r ymwybyddiaeth gorfforaethol o Borth Ceredigion a phwysigrwydd ymyrryd yn gynnar i feithrin gwytnwch yr unigolyn, y teulu a’r gymuned.
- Darparu cyswllt allweddol â’r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol eraill i sicrhau bod amcanion strategol a chorfforaethol y Cyngor yn cael eu cydlynu'n effeithiol a'u gweithredu ar draws pob maes gwasanaeth.
- Er bod gan y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gyfrifoldeb penodol dros reoli ac arwain portffolio o feysydd gwasanaeth, mae ganddynt gyfrifoldeb corfforaethol hollbwysig hefyd i sicrhau bod gweithgaredd a gweithredoedd pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcanion a safonau strategol y Cyngor ac yn eu cefnogi.
- Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion.





# Prif Gyfrifoldebau

## Strategol

- Sicrhau bod diwylliant sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn cael ei hyrwyddo bob amser.
- Gwneud cyfraniad positif a gweithredol i strategaethau, cynlluniau a pholisïau corfforaethol y Cyngor a throsi'r rhain yn gynlluniau busnes y gellir eu gwireddu ac sy'n gwella darpariaeth y gwasanaeth.
- Dod o hyd i - a gweithredu - datrysiadau arloesol a chreadigol ar gyfer y gwasanaethau perthnasol er mwyn diwallu angen y Cyngor i gyflwyno newid a gwelliant oddi mewn i'r gyllideb sydd ar gael.
- Bwrw ati i weithio'n adeiladol gyda'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r
- Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'u cefnogi i ddarparu'r weledigaeth, yr arweinyddiaeth a'r cyfeiriad strategol sy'n angenrheidiol i alluogi gwasanaethau i lunio a gweithredu polisïau perthnasol ac effeithiol.
- Cynnal a hyrwyddo perthynas waith agos gydag Aelodau Etholedig, cydweithwyr a sefydliadau allanol.
- Gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r Cyngor a thrigolion Ceredigion.
- Gweithredu fel swyddog arweiniol, fel sy'n ofynnol, o fewn partneriaethau'r Cyngor gydag amryw asiantaethau.

## Gweithredol

- I fod y swyddog arweiniol o fewn y Cyngor gyda chyfrifoldeb am Wasanaethau Arbenigol Porth Cynnal.
- I sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon ar gyfer ystod o wasanaethau gydoloes gan gynnwys:
  - Diogelu
  - Iechyd meddwl
  - Gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth wedi'i Gynllunio
  - Camddefnyddio Sylweddau
  - Gwasanaethau Cymorth Estynedig (Anabledd)
  - Sicrwydd Ansawdd ac Adolygiad Annibynnol
- I fod yn gynghorydd arweiniol i'r Cyngor ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â Porth Cynnal.
- Hyrwyddo iechyd a lles trigolion Ceredigion.

## Rheoli Ansawdd a Pherfformiad

- Sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu deall a'u darparu'n llawn wrth gyflawni a gwella gwasanaethau.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno mewn modd cydlynol ac yn unol â pholisïau a safonau y cytunwyd yn eu cylch a hefyd yn unol â phrosesau llywodraethu democrataidd y Cyngor.
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru yn unol â deddfwriaeth gyfredol a'r arferion gorau.
- Gwerthuso ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ar sail cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau busnes a dangosyddion perfformiad statudol ac anstatudol.
- Sicrhau bod y trefniadau cyllido ar gyfer gwasanaethau yn cael eu gweithredu'n briodol ac yn gymwys; gan gynnwys paratoi a rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf gwasanaethau yn unol â'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol. Cwrdd â'r pwysau ariannol a'r heriau cynyddol ar gyllidebau'r gwasanaeth.
- Canfod a dilyn ffynonellau cyllid allanol priodol a ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau, e.e. trwy weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.
- Bod yn ymwybodol yn barhaus o'r tirlun newidiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac ymchwilio i arferion cenedlaethol a lleol wrth ddarparu gwasanaethau. Gwneir hyn i herio a datblygu datrysiadau arloesol ynghylch y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu, er mwyn sicrhau perfformiad parhaus.
- Sicrhau safonau uchel o ran perfformiad holl staff y Gwasanaeth, cydnabod perfformiad da a mynd i'r afael â pherfformiad gwael mewn modd cadarnhaol ac effeithiol.
- Cynnal trosolwg o risgiau'r gwasanaeth, achosion proffil uchel a materion sy'n achosi pryder i'r cyhoedd, gan gynnwys cwynion.
- Gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol eraill i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i'r Cyngor.
- Bod yn barod i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i anghenion y Cyngor, ei gwsmeriaid a'i bartneriaid.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o ran arferion cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau fel bod y Cyngor yn cwrdd â'i rwymedigaethau moesol a chyfreithiol fel cyflogwr cyfleoedd cyfartal.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â lefel a disgwyliadau'r swydd, gan gynnwys cynllunio at argyfyngau; rheoli a chydlynu ymatebion; rheoli risgiau; a diogelu.

## Cyfathrebu

- Adolygu'r dulliau presennol o gyfathrebu â'r staff er mwyn sicrhau bod y rhain yn effeithiol ac yn annog adborth dwy ffordd.
- Hyrwyddo diwylliant o gyfathrebu mewnol ac allanol cryf.
- Cynnal cyswllt effeithiol gydag Aelodau Etholedig, a lle bo'n briodol, darparu gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr er mwyn cyfeirio materion angenrheidiol at yr Aelodau yn amserol fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad yn eu cylch.

# Manyleb Person

**Cymwysterau**

Addysg hyd at lefel gradd mewn Gofal Cymdeithasol neu Iechyd (Hanfodol) Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (neu HCPC yn Lloegr) (Hanfodol) Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (Hanfodol)
Cymhwyster uwch reoli cydnabyddedig (Dymunol)

**Profiad o Lywodraeth Leol**

Dealltwriaeth lawn o rôl aelodau etholedig a'r broses o wneud penderfyniadau mewn amgylchedd gwleidyddol (Hanfodol)
Profiad o weithio o fewn llywodraeth leol gan gynnwys ymwybyddiaeth o sensitifrwydd a chyd-destun gwleidyddol y rôl (Dymunol)
Gwybodaeth drylwyr o fframweithiau’r polisïau cenedlaethol y mae'r Cyngor yn gweithredu o’u mewn (Hanfodol)

**Profiad o Uwch Reoli**

Profiad o reoli maes gwasanaeth yn llwyddiannus mewn sefydliad aml-swyddogaethol ac yn dangos llwyddiant sy’n dylanwadu'n sylweddol ar berfformiad (Hanfodol)
O leiaf 5 mlynedd o brofiad rheoli perthnasol ym maes gofal cymdeithasol neu iechyd (Hanfodol)
Profiad rheoli helaeth a llwyddiannus ar lefel uwch, gan gynnwys tystiolaeth o ymrwymiad, menter, gweledigaeth a hyblygrwydd (Hanfodol)
Cofnod llwyddiannus o ddadansoddi materion, datblygu strategaethau ar sail aml-asiantaethol a chreu cynlluniau gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion ac sy'n cyflawni gwelliannau o ran ansawdd a chostau (Hanfodol)

**Darparu Gwasanaethau**

Yn gwerthfawrogi cyfrifoldebau a gofynion rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn dirprwyo ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Hanfodol)
Dealltwriaeth lawn o’r ddeddfwriaeth a’r rheoliadau o ran eu hymwneud â Gofal Cymdeithasol ac ymyrraeth gynnar (Hanfodol)
Tystiolaeth o ddatblygu strategaethau a pholisïau'n llwyddiannus mewn meysydd o gyfrifoldeb penodol sy'n cyflawni canlyniadau o safon uchel (Hanfodol)
Hanes o berfformiad da o ran arwain, rheoli a gwella timau amlddisgyblaethol yn barhaus ac mewn modd llwyddiannus er mwyn cyflawni newid positif o fewn gwasanaethau cyhoeddus (Hanfodol)
Dealltwriaeth lawn o brosesau rheoli perfformiad a chynllunio busnes gyda'r gallu i gyfeirio’r wybodaeth hon at wella perfformiad sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid yn barhaus (Hanfodol)

**Rheoli Adnoddau**
Profiad helaeth o reoli adnoddau dynol ac ariannol ar raddfa eang yn unol â'r polisïau a'r blaenoriaethau y cytunwyd yn eu cylch ac o fewn fframweithiau ffurfiol costau a safonau ansawdd (Hanfodol)

**Gweithio mewn Partneriaeth**
Tystiolaeth o weithio'n llwyddiannus gyda staff, Undebau Llafur, sefydliadau allanol yn y sector cyhoeddus a phreifat a sefydliadau yn y sector gwirfoddol (Hanfodol)

**Effeithlonrwydd Personol / Sgiliau Allweddol**
Ymrwymiad i lywodraeth leol ddemocrataidd gydag ymwybyddiaeth o fod yn sensitif i gyd-destun gwleidyddol y rôl a'r gallu i fod yn ddiduedd, i reoli perthnasoedd gwleidyddol a gweithio gyda phleidiau gwleidyddol a chynnal eu hymddiriedaeth (Hanfodol)
Sgiliau arwain cryf gyda'r gallu i feddwl yn strategol, yn greadigol ac yn arloesol a gweithredu syniadau mewn modd effeithiol gan fod yn agored i syniadau newyd (Hanfodol)
Ymrwymiad i egwyddorion ac arferion gofal cwsmeriaid, gan sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau a chydnabod yr effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth (Hanfodol) Sgiliau cyfathrebu ardderchog a'r gallu i gysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd a defnyddio gwahanol gyfryngau fel sy'n briodol (Hanfodol)
Sgiliau trafod cryf gyda record o gyflawniad a llwyddiant yn y gorffennol (Hanfodol)
Y gallu i weithio dan bwysau er mwyn bodloni terfynau amser tynn (Hanfodol)
Ymrwymiad clir i gynnal egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth (Hanfodol)

**Amgylchiadau Personol**
Rhaid meddu ar drwydded yrru lawn (Hanfodol)
Rhaid bod yn barod i weithio oriau afreolaidd er mwyn diwallu anghenion y Gwasanaeth (Hanfodol)

**Gallu Ieithyddol**
Ystyrir bod y gallu i ymgymryd â thasgau'r swydd uchod trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg yn hanfodol.
Gall y Cyngor ystyried ymgeisydd lle y cytunir bod ymrwymiad i gyrraedd ALTE Lefel 4, (llafar), Lefel 3 (darllen) a Lefel 3 (ysgrifennu) o fewn dwy flynedd (Hanfodol)

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**
Mae angen gwiriad Gweithlu Oedolion a Phlant Manylach Restr Waharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y rôl hon.

**Cyfyngiad Gwleidyddol**
Mae'r swydd hon yn gyfyngedig yn wleidyddo

# Yn gyfnewid am eich medrau a'ch arbenigedd

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- O 26 hyd at 36 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (ynghyd ag 8 o wyliau cyhoeddus)
- Trefniadau gweithio hyblyg, gan gynnwys amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau Meddygol, Deintyddol ac Optegydd
- Cyfleoedd gwych ar gyfer datblygiad personol trwy ein rhaglenni dysgu a datblygu craidd
- Ystod o gynlluniau aberthu cyflog gan gynnwys y cynllun 'Beicio i'r Gwaith' a chyfraniadau pensiwn gwirfoddol ychwanegol
- Rhaglen cymorth i gyflogeion – darparu cyngor, cymorth a chwnsela cyfrinachol am ddim i weithwyr ar amrywiaeth o faterion
- Aelodaeth am bris gostyngol i'n canolfannau hamdden lleol
- Cynilion ffordd o fyw a cherdyn Vectis yn cynnig gostyngiadau mewn ystod eang o fusnesau cenedlaethol a lleol

...a llawer mwy.





# Y Broses Benodi

## Ceisiadau

Rhaid cyflwyno ceisiadau trwy ffurflen gais ar-lein y Cyngor. Ni dderbynnir unrhyw ddogfennaeth ategol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner nos, 26 Ionawr 2023

Cynhelir y cyfweliad cychwynnol ar 14 Chwefror 2023

Cynhelir y cyfweliad cam olaf ar 16 Chwefror 2023

## Geirdaon cyflogaeth

Bydd yn rhaid i chi roi enwau a manylion cyswllt dau ganolwr. Os dymuna ymgeiswyr i ni eu hysbysu cyn ein bod yn cysylltu â'u canolwyr, yna dylid nodi hynny'n glir ar y ffurflen gais.

## Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 – Atal gweithio'n anghyfreithlon

i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y DU. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu tystiolaeth wreiddiol o'i hawl i weithio yn y DU. Rhoddir cyfarwyddyd pa ddogfennau sy'n addas.

## Cyflwyno gwybodaeth ffug

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y gall cyflwyno gwybodaeth ffug neu beidio â datgelu gwybodaeth berthnasol naill ai wrth wneud cais neu yn y cyfweliad, arwain at ddileu'r cais neu ddiswyddo heb rybudd.







# Am ragor o wybodaeth...

Am ragor o wybodaeth a / neu drafodaeth anffurfiol am y swydd, cysylltwch â James Starbuck ar james.starbuck@ceredigion.gov.uk

# CEREDIGION

GYRFA GWAITH DYSGU
CAREER WORK LEARN

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol